

Proffil Swydd

Technegydd Masnachol Aml-greffft - Plastrwr, efo Saer Coed a Phlymio sylfaenol

Yn adrodd i:

Rheolwr Contractau

Tîm:

Gwasanaethau Eiddo - Uned Cynnal a Chadw Adeiladau

Lleoliad:

Ardal Weithredol Cartrefi Conwy

Cyflog, Oriau a Gwyliau:

C3P2 - Hyd at £32,056 yn dibynnu ar brofiad.
Contract tymor penodedig am 2 flynedd, Llawn-amser, 40 awr 25 diwrnod gwyliau a gwyliau banc (yn codi i 32 diwrnod gyda gwasanaeth)

Pwrpas y Swydd:

Darparu gwasanaethau atgyweirio a chynnal a chadw o ansawdd uchel ar draws eiddo tai cymdeithasol, gan arbenigo mewn gwaith plastro, a gwaith saer a phlymio sylfaenol. Mae'r swydd yn sicrhau bod cartrefi yn ddiogel, yn weithredol ac yn cael eu cynnal i safon uchel, gan gefnogi boddhad tenantiaid a chydymffurfiaeth â Safon Ansawdd Tai Cymru.

Gwahanol Agweddau'r Swydd:

Y prif gyfrifoldeb yw gweithio mewn crefft fasnachol o fewn unrhyw un o'r gweithgareddau Cynnal a Chadw Adeiladau ardaloedd. Yn atebol am gynnal a chadw cerbyd ac offer, cyfarpar a deunydd, o dan eich rheolaeth.

Ffocws a chyfrifoldebau allweddol:

- Gwneud gwaith atgyweirio ymatebol, cynnal a chadw wedi'i gynllunio, a mân waith adnewyddu mewn eiddo wedi'i feddiannu ac eiddo gwag.
- Ymgymryd â thasgau gwaith saer (e.e., hongian drws, newidiadau cwpwrdd cegin, byrddau sgertin), plastro (atgyweirio clytiau, waliau llawn), a phlymio sylfaenol (ailosod tapiâu, mân ollyngiadau, nwyddau misglwyf).
- Arbenigo mewn trin lleithder a llwydni, gan gynnwys gwaith atgyweirio cysylltiedig ar draws sawl crefft

- Darganfod achos diffygion a nodi'r atebion mwyaf cost-effeithiol.
- Sicrhau bod yr holl waith yn cydymffurfio â safonau iechyd a diogelwch a deddfwriaeth berthnasol.
- Cadw cofnodion cywir o'r gwaith a gwblhawyd gan ddefnyddio dyfeisiau llaw neu daflenni gwaith.
- Darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol, gan barchu cartrefi a phreifatrwydd tenantiaid.
- Cysylltu â goruchwylwyr a chynllunwyr i sicrhau bod gwaith yn cael ei gwblhau yn amserol.
- Rhoi gwybod yn brydlon am unrhyw bryderon diogelu neu broblemau eiddo.

Atebolrwydd corfforaethol

- Cefnogi'n weithredol y gwaith o gyflawni amcanion Cartrefi Conwy yn gyffredinol er mwyn darparu gwasanaeth rhagorol, arloesol ac sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.
- Cyfrannu at weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned a chyfranogiad tenantiaid yn ôl yr angen.
- Fel cynrychiolydd Cartrefi Conwy, hyrwyddo a chynnal agwedd a delwedd gadarnhaol bob amser.
- Hyrwyddo ymrwymiad Cartrefi Conwy yn gadarnhaol; herio ffyrdd traddodiadol o weithio, ymddygiad neu sylwadau gwrthwynebus.
- Sicrhau bod adborth yn cael ei geisio'n weithredol er mwyn llywio gwella gwasanaeth i gwsmeriaid a datblygu ffyrdd mwy effeithlon ac effeithiol o weithio.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â Rheolau Sefydlog, polisiau a gweithdrefnau Cartrefi Conwy, safonau gonestrwydd sy'n ymwneud â statws elusennol y sefydliad a Rheoliadau Llywodraeth Cymru.
- Cefnogi datblygu, adolygu a gweithredu polisiau a gweithdrefnau, yn enwedig o ran:
 - Mentrau iechyd, diogelwch a lles
 - Egwyddorion cymdeithasau ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth
 - Mentrau rheoli risg
 - Arferion rheoli perfformiad
- Defnyddio technoleg a systemau TGCh yn effeithiol trwy ddatblygu sgiliau priodol, mabwysiadu prosesau busnes effeithlon, a chynnal data'n ddiogel ac yn gywir.
- Gweithio ar y cyd mewn gweithgorau traws-swyddogaethol lle bo angen.

Perthnasoedd Allweddol:

Allanol: Tenantiaid – Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf I denantiaid am weithgarwch a chynnydd gwaith dyddiol a delio â thenantiaid nad ydynt yn hapus â phenderfyniad atgyweirio ar y safle.

Mewnol: Technegwyr Masnachol - Cyfathrebu dyddiol gyda thechnegwyr masnachol eraill. **Cydlunydd** – Adrodd cynnydd dyddiol a chodi unrhyw faterion ar y safle sy'n gofyn am gyfranogiad y cydlunydd. **Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid** – Yn ddyddiol

Manylion yr Unigolyn

Cymwysterau:

	Hanfodol / Dymunol	Aseswyd gan?
NVQ Lefel 2 neu brofiad cyfatebol mewn crefft fasnachol berthnasol.	Hanfodol	Cais
NVQ Lefel 3 neu brofiad cyfatebol mewn crefft fasnachol berthnasol.	Dymunol	Cais

Gwybodaeth a Phrofiad:


	Hanfodol/ Dymunol	Aseswyd gan?
Profiad amlwg mewn swyddi aml-grefft o fewn tai cymdeithasol neu amgylcheddau tebyg.	Hanfodol	Cais / Cyfweliad
Cymwys mewn gwaith saer, plastro a phlymio i safon broffesiynol.	Hanfodol	Cais / Cyfweliad
Profiad o weithio mewn eiddo a thrin achosion o leithder a llwydni.	Dymunol	Cais / Cyfweliad
Gwybodaeth am reoliadau adeiladu a gofynion iechyd a diogelwch.	Hanfodol	Cais / Cyfweliad
Y gallu i weithio'n annibynnol a rheoli llwyth gwaith yn effeithiol	Hanfodol	Cais / Cyfweliad
Sgiliau datrys problemau cryf a sylw i fanylion.	Hanfodol	Cais / Cyfweliad
Sgiliau cyfathrebu a gwasanaeth cwsmeriaid da.	Hanfodol	Cais / Cyfweliad
Profiad o ddefnyddio systemau rheoli gwaith symudol.	Dymunol	Cais / Cyfweliad
Gwybodaeth sylfaenol am grefftau eraill (teilsio, paentio, ac ati)	Dymunol	Cais / Cyfweliad

Medrau:

	Hanfodol/ Dymunol	Aseswyd gan?
Trwydded Yrru Lawn y DU	H	Cais
Sgiliau Iaith Gymraeg	D	Cais

Ymrwymiadau Cartrefi

	Hanfodol/ Dymunol	Aseswyd gan?



	Dymunol	
Rydym yn gwneud y peth iawn	H	Cyfweliad
Rydym yn arwain trwy esiampl	H	Cyfweliad
Rydym yn gryfach gyda'n gilydd	H	Cyfweliad

Datganiad Cyfle Cyfartal Mae Cartrefi Conwy wedi ymrwmo i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ein gweithgareddau ac yn croesawu ceisiadau gan bob ymgeisydd cymwys.

*Lle bo anabledd yn atal hyn, bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu gyda'r ymgeiswyr yn ystod y cyfweliad i weld a oes unrhyw addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud ar gyfer y gofyniad hwn.

Diogelu Data: Bydd eich data personol yn cael ei drin yn unol â GDPR a Deddf Diogelu Data 2018. Byddwn yn defnyddio eich data at ddibenion recriwtio yn unig ac ni fyddwn yn ei rannu â thrydydd partion heb eich caniatâd.